# Adroddiad Effaith 2020-21 a Chynllun Ymgyrchoedd 2021-22

**UCM Cymru**

Cyhoeddwyd ym Medi 2021

ucm cymru
undeb cenedlaethol y **myfyrwyr**

# Croeso gan y Llywydd

## Ennill Gyda'n Gilydd

Eleni mae UCM yn cyrraedd 100 oed! Ein pen-blwydd swyddogol yw 10fed Chwefror 2022. Mae hwn yn ben-blwydd sy'n perthyn i bob un ohonom - myfyrwyr ac UMau.

Mae canrif o fyfyrwyr ac UMau wedi bod yn rhan o'r mudiad di-rwystr hwn, gan wthio cymdeithas ymlaen ar y materion mawr sy'n wynebu pob cenhedlaeth: rhyfel, ffasgaeth, gormes, tlodi, gwasanaethau cyhoeddus i bawb.

**Mae myfyrwyr heddiw yn wynebu heriau heddiw gyda'r un penderfyniad a dyfalbarhad: yr argyfwng hinsawdd, iechyd meddwl, anghyfiawnder economaidd, a rhyddhad rhag gormes.**

Weithiau gall deimlo bod y frwydr dros gymdeithas well, byd gwell hyd yn oed, yn rhy fawr i ni allu gwneud gwahaniaeth.

**Ond does dim amheuaeth - mae mudiad y myfyrwyr wedi gwneud gwahaniaeth. Gwahaniaeth rhyfeddol sydd wedi newid y byd.**

Sefydlwyd UCM ar sail syniad Ivison Macadam "os yw myfyrwyr yn cydweithredu heddiw, siawns nad oes gobaith am yfory". Mae hyn yr un mor wir 100 mlynedd yn ddiweddarach.

**Undebau myfyrwyr a myfyrwyr heddiw *yw'r* gobaith am fyd gwell yfory.** A'r llynedd fe wnaethon ni ymateb i'r her unwaith eto, wrth i'r byd wynebu pandemig byd-eang na welwyd erioed ei debyg.

## Arweinyddiaeth Swyddogion

Mae UCM yn cael ei arwain gan dîm o 7 swyddog llawn-amser:
**Larissa Kennedy**, Llywydd Cenedlaethol
**Matt Crilly**, Llywydd UCM yr Alban
**Ellen Fearon**, Llywydd UCM-UMI
**Becky Ricketts**, Llywydd UCM Cymru
**Sara Khan**, Is-Lywydd Cydraddoldeb a Rhyddhad
**Hillary Gyebi-Ababio**, Is-Lywydd AU
**Salsabil Elmegri**, Is-Lywydd AB

## Effaith 2020-21

Wel. Am. Flwyddyn. Rwyf am dalu teyrnged i ymgyrchwyr, swyddogion, a staff UMau am y gwaith rhyfeddol a wnaethoch ledled y DU yn 2020-21.

**Tarodd Covid bob agwedd ar fywyd myfyrwyr. Felly daethom at ein gilydd a chyflawni pethau anhygoel mewn cyfnod tywyll iawn.**

**£800m yn ôl i bocedi myfyrwyr** ledled y DU, gan gynnwys taliadau o £350 yng Nghymru.

Camau cadarnhaol tuag at **strategaeth iechyd meddwl ar gyfer pob myfyriwr yng Nghymru.**

**HEFYD:**

- **£50k i bob undeb myfyrwyr yng Nghymru** i gynnig cymorth i fyfyrwyr yn ystod y pandemig
- Tro pedol ar raddau **Safon Uwch a BTEC**
- **Polisïau Dim Anfantais** ar draws sefydliadau AU
- Cynllun yn lle **Erasmus+** ar gyfer myfyrwyr yng Nghymru
- Mwy na 100 **o ymgeiswyr yn cefnogi myfyrwyr** yn etholiad y Senedd

## Y dyfodol

Ar gyfer y DU gyfan, rydyn ni'n (ail)lansio **Gweledigaeth Newydd ar gyfer Addysg**, rydyn ni'n mynd â'r ymgyrch **Dadwladychu Addysg** i'r lefel nesaf, ac yng Nghymru byddwn yn canolbwyntio ar fuddugoliaethau mawr o ran **llety a thai myfyrwyr**.

Ionawr yw dechrau ein 100fed blwyddyn, pan fyddwn ni'n myfyrio, diolch, a dathlu!

Mae eleni hefyd yn flwyddyn etholiadau UCM. Efallai y byddaf yn trosglwyddo'r awenau i *chi* ym mis Mehefin….



**Becky Ricketts**
**Llywydd UCM Cymru**

# Strategaeth UCM

## Cyd-destun Strategol

**Treuliwyd 100 mlynedd gyntaf ein mudiad yn adeiladu pŵer mewn byd analog. Byddwn yn treulio'r 100 mlynedd nesaf yn adeiladu pŵer mewn un digidol.**

Mae angen i ni ailadeiladu llais myfyrwyr cenedlaethol sy'n ddigon pwerus i gael ei glywed yn y byd sydd ohoni.

Ni fydd heriau heddiw yn cael eu datrys heb fyfyrwyr, undebau myfyrwyr a'n hundeb cenedlaethol. Yn y ganrif ddiwethaf wynebodd myfyrwyr heriau mwyaf dirdynnol cymdeithas: rhyfel, ffasgaeth, apartheid, gormes, tlodi, mynediad at wasanaethau cyhoeddus hanfodol. Mae angen ein sylw cymaint ar heriau heddiw: anhrefn hinsawdd, argyfwng iechyd meddwl, anghydraddoldeb a gwasanaethau cyhoeddus diffygiol.

**Mae ymgyrchu gan fudiad y myfyrwyr yn sicrhau budd triphlyg i fyfyrwyr, addysg ac i gymdeithas.**

Rydym bob amser wedi gweld y cysylltiad rhwng ein haddysg a'n byd: mae addysg yn borth i gymdeithas, i weithlu'r dyfodol ac i arweinwyr a dinasyddion yfory. Gyda chymaint o'r boblogaeth bellach yn mynd i mewn i AB, AU a phrentisiaethau, ni fu addysg ôl-16 erioed yn bwysicach. Addysg yw'r lle mwyaf effeithiol i greu newid cymdeithasol parhaol.

## "Yn syml, ystyr radical yw mynd at wraidd y broblem."

### Angela Davis

## Yr Her

Mae angen i ni drawsnewid rhywbeth a adeiladwyd i ennill mewn byd analog yn rhywbeth sy'n gallu ennill mewn byd digidol.

Mae hyn yn golygu symud o ddull sy'n seiliedig ar lobïo dros bolisi i un sy'n canolbwyntio ar ymgyrchu ar sail cynnwys.

Ac mae'n rhaid i ni fynd o ymgysylltu â channoedd i ennyn diddordeb miliynau yn ein gwaith.




## Y gwerthoedd rydyn ni'n gweithio arnyn nhw

- Gweithredu ar y cyd
- Undod
- Gwrthsefyll gormes
- Creadigrwydd
- Gofal ar y Cyd
- Llawenydd

## Mesurau Strategol

| | 2021-22 | 2025 |
|---|---|---|
| **Ffocws** | 70% o'n hadnoddau ar 5 blaenoriaeth | 80% o'n hadnoddau ar 5 blaenoriaeth |
| **Cyrhaeddiad** | 55% UMau 300k o gefnogwyr | 80% o UMau 1m o gefnogwyr |



# Adroddiad Effaith Cymru UCM 2020/-21

## Mae Myfyrwyr yn Haeddu Gwell

**Daeth mudiad y myfyrwyr ynghyd fel erioed o'r blaen** yn ystod y pandemig i ddarparu cymorth llesiant, cyfiawnder academaidd a chynhaliaeth ariannol i fyfyrwyr.

Ledled y DU, rhoddodd ein hymgyrch Mae Myfyrwyr yn Haeddu Gwell **£800 miliwn yn ôl ym mhocedi myfyrwyr** ar ffurf ad-daliadau rhent, cael eu rhyddhau o denantiaeth yn gynnar a chronfeydd cymorth i fyfyrwyr.

**Llwyddiannau**: Yng Nghymru, derbyniwyd **£80 miliwn ar ffurf cyllid argyfwng Covid gan Lywodraeth Cymru** ar gyfer prifysgolion a cholegau mewn **ymateb uniongyrchol i ymgyrchu gan UCM Cymru**.
Roedd hyn yn cynnwys:

- **£40m** i fynd i'r afael â **chaledi ariannol myfyrwyr** trwy sicrhau bod **taliadau o £350** ar gael i bob myfyriwr yng Nghymru.
- **£10m** i wella gwasanaethau iechyd meddwl myfyrwyr ar gampysau ac ar-lein.
- **£50k i bob undeb myfyrwyr yng Nghymru** i gynnig cymorth i fyfyrwyr ym mha bynnag ffordd maen nhw'n meddwl sydd fwyaf effeithiol.
- **£3m** ar gyfer gliniaduron ac offer i fynd i'r afael â **thlodi digidol ymhlith myfyrwyr AB**.
- **£27m** i gynorthwyo prifysgolion a'u digolledu am incwm a gollwyd yn sgil **seibiannau rhent a rhyddhau myfyrwyr o gontractau llety**.

**Llwyddiannau**: Llwyddwyd hefyd i sicrhau y gallai myfyrwyr gyrraedd **adref ar gyfer y Nadolig**, a bod y **myfyrwyr a arhosodd ar y campws** yn cael cefnogaeth. Roedd gan fyfyrwyr **fynediad i brofion Covid** pan fyddent yn teithio.

### Bu myfyrwyr ac UMau yn gweithredu!

Bu **2,500 o fyfyrwyr** yn ymgyrchu ac roedd **14 undeb myfyrwyr** yn cefnogi ein hymgyrchoedd.

## Iechyd Meddwl Myfyrwyr

Sicrhau **strategaeth iechyd meddwl myfyrwyr** oedd ein blaenoriaeth yn 2020-21, a gosodwyd llesiant myfyrwyr **wrth galon** ein hymateb i Covid a'n maniffesto ar gyfer etholiad y Senedd.

Llwyddwyd i sicrhau bod iechyd meddwl myfyrwyr yn **flaenoriaeth allweddol gan Lywodraeth Cymru** wrth gynnig cymorth i'r sector addysg bellach ac uwch trwy gydol y pandemig.

**Llwyddiannau**: Rydym yn **cadeirio grŵp** a fydd yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar gyfer a **strategaeth iechyd meddwl** i fyfyrwyr mewn addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru.

## Addysg ar gyfer Cymru Decach

Defnyddiwyd argymhellion a thestun o'n **Maniffesto ar gyfer etholiad Senedd 2021** gan **bob plaid** a lwyddodd i gael Aelodau wedi'u hethol i'r Senedd ym mis Mai.

Roedd **traean o'r 400+ o ymgeiswyr** oedd yn sefyll yn yr etholiad wedi arwyddo ein **Hadduned Myfyrwyr**, gan gynnwys **23 o'r 60 a etholwyd.**

**Llwyddiannau**: Cyhoeddodd Llafur Cymru **gynllun yn lle Erasmus+** i lenwi'r bylchau a adawyd gan gynllun Turing, yn dilyn lobïo ac argymhelliad yn ein maniffesto.

## Dadwladychu Addysg ledled y DU

Cam cyntaf yr ymgyrch hon oedd sefydlu *Dadwladychu* fel yr ymateb a ffafrir i hiliaeth. Roedd angen i ni greu sylfaen wybodaeth eang. Cafwyd 22,000 o bobl i gymryd rhan mewn rhaglen addysg wleidyddol:

- **Digwyddiad Instagram Byw ar Ddadwladychu**
- **Llyfrgell Ddadwladychwyr** aml-gyfrwng
- **Siop Ddadwladychwyr**

# Crynodeb o Ymgyrchoedd 2021-22

## Sylfeini wedi torri: *Datrys argyfwng llety a thai myfyrwyr*

***Cynhelir yr ymgyrch hon**: yng Nghymru*
***Targedau i'w cyrraedd:** 11 o UMau, 17k o gefnogwyr*

**Strategaeth ymgyrchu:**

- Cyhoeddi ymchwil ar lety a thai myfyrwyr
- Creu achos cymhellol dros newid
- Ymgyrchu a lobïo

**Y fuddugoliaeth:** Sicrhau gwelliannau cyfreithiol a rheoliadol

## Gweledigaeth Newydd ar gyfer Addysg

***Cynhelir yr ymgyrch hon:** yn Lloegr, Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban*
***Targedau i'w cyrraedd:** 150 o UMau, 201k o gefnogwyr*

**Strategaeth ymgyrchu:**

- Newid addysg nawr
- Adeiladu mudiad trawsnewidiol
- Mesur newid yn y naratif cyhoeddus a gwleidyddol ynghylch addysg

**Yr amcan hirdymor:** Sicrhau addysg ôl-16 gydol oes, wedi'i hariannu, sy'n hygyrch ac yn ddemocrataidd

## Dadwladychu Addysg

***Cynhelir yr ymgyrch hon:** yn Lloegr, Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban*
***Targedau i'w cyrraedd:** 50 o UMau, 50k o gefnogwyr*

**Strategaeth ymgyrchu:**

- Adeiladu sylfaen wybodaeth
- Dadfuddsoddi ar draws prif ffrwd addysg
- Grymuso UMau i weithredu

**Y fuddugoliaeth:** Gwahanwch y cysylltiad rhwng addysg a chwmnïau sy'n hybu gwladychiaeth

## Lleisiol a Gweladwy

Yn ogystal â'r 5 ymgyrch a flaenoriaethir, mae nifer o faterion y byddwn yn parhau i fod yn lleisiol ac yn weladwy yn eu cylch trwy gydol y flwyddyn. Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar ambell foment allweddol, y wasg a phartneriaeth â sefydliadau eraill sy'n arwain ar wahanol faterion. Bydd y gweithgareddau hyn yn gyfyngedig ac yn canolbwyntio ar gael fflachbwyntiau gwelededd i sicrhau cynrychiolaeth gynhwysfawr.

# Sylfeini wedi torri: *Datrys argyfwng llety a thai myfyrwyr*

## Beth yw'r sefyllfa?

Mae tai myfyrwyr, ers amser maith, wedi bod yn gyfystyr ag ansawdd isel, costau uchel a landlordiaid amheus. Mae myfyrwyr yn aml wedi'u clymu i gontractau annheg, ac maen nhw'n ildio i'w hamodau byw gwael. Mae fel petai'n dderbyniol bellach.

Rydym wedi comisiynu Shelter Cymru i gynhyrchu ymchwiliad manwl i gyflwr tai myfyrwyr. Byddant hefyd yn cynnal adolygiad llawn o'r drefn ddeddfwriaethol a rheoliadol yng Nghymru ar hyn o bryd.

Rydyn ni'n gwybod bod pethau'n wael. Ond mae angen i ni daflu goleuni newydd ar y sefyllfa hon sydd, yn gyffredinol, yn cael ei derbyn. Mae angen i ni danio dicter ac angerdd newydd am well tai i fyfyrwyr. Ac mae'n rhaid i ni droi hynny'n newid diriaethol yng Nghymru.

## Amcan SMART

**Sicrhau gwelliannau cyfreithiol a rheoliadol ar gyfer tai myfyrwyr yng Nghymru**

### Targedau

- 11 o UMau a 17k o gefnogwyr
- Cyhoeddi ymchwil gwreiddiol
- Sicrhau bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i welliannau cyfreithiol a/neu reoleiddiol erbyn Gorffennaf 2022

### Cynhelir yr ymgyrch hon yn:

ucm cymru
undeb cenedlaethol y myfyrwyr

nus wales
national union of students

## Strategaeth ymgyrchu:

- Canfod tystiolaeth o'r broblem trwy gyhoeddi ymchwil newydd
- Ymhelaethu ar y broblem trwy weithgaredd yn y cyfryngau a gweithredoedd gan gefnogwyr yr ymgyrch
- Ennill cefnogaeth ar draws aelodau'r Senedd a Gweinidogion y Llywodraeth
- Canolbwyntio ac ennill ymrwymiad ffurfiol ar gyfer newid gan y Llywodraeth

## Tactegau

1. **Tystiolaeth**
   Mae gweithio gyda Shelter Cymru yn rhoi grym ychwanegol i ni, ac yn golygu y bydd canfyddiadau ein hymchwil yn adlewyrchu dylanwad y naill fudiad a'r llall.

2. **Rhoi cyhoeddusrwydd i'n neges**
   Gan ddefnyddio'r ymchwil fel sylfaen, byddwn yn partneru gydag UMau a myfyrwyr i adeiladu ymgyrch yn y cyfryngau a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Byddwn yn defnyddio ystadegau a straeon i gyflwyno'r achos dros newid.

3. **Cefnogaeth wleidyddol**
   Bydd Shelter Cymru ac UCM Cymru yn creu rhaglen hyfforddi benodol ar gyfer UMau i'w grymuso i adeiladu pwysau gwleidyddol yn lleol ynghylch llety a thai myfyrwyr. Byddwn yn ennill cefnogaeth eang gan aelodau'r Senedd hefyd cyn canolbwyntio ein sylw ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau am y fuddugoliaeth.

# Gweledigaeth Newydd ar gyfer Addysg

## Beth yw'r sefyllfa?

Mae digwyddiadau byd-eang 2020-21 wedi gwneud cenhedlaeth o fyfyrwyr yn llawer mwy ymwybodol o wleidyddiaeth; felly hefyd eu rhieni a'r rhai sy'n ymwneud ag addysg.

Mae gwaith sylweddol UCM yn y wasg yn ystod y pandemig wedi gwneud y cyhoedd yn fwy parod i gydymdeimlo â myfyrwyr. Ond mae mwyafrif y farn gyhoeddus yn bell i ffwrdd o'n gweledigaeth ar gyfer addysg ôl-16 gydol oes, wedi'i hariannu, sy'n hygyrch ac yn ddemocrataidd.

Credwn mai'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau newid yn yr hyn mae pobl yn ei gredu yw trwy gyrraedd pobl gan ddefnyddio'r cyfryngau, cyfryngau cymdeithasol, a thrwy adeiladu mudiad o ymgyrchwyr sydd wedi ymrwymo i drawsnewid addysg.

## Amcan SMART

**Erbyn Gorffennaf 2022, byddwn wedi adeiladu'r sylfaen ar gyfer mudiad a all symud y naratif ynghylch addysg tuag at addysg ôl-16 gydol oes, wedi'i hariannu ac sy'n hygyrch.**

### Targedau

- Ymgysylltu â 150 o UMau, gan gynnwys o leiaf 40 AB
- Cyrraedd 201k o gefnogwyr a'u hymgysylltu'n benodol â'r newid mewn naratif
- Mesur newid mewn naratif ar draws ein mudiad

### Cynhelir yr ymgyrch hon yn:

nus national union of students

nus usi Northern Ireland

ucm cymru undeb cenedlaethol y myfyrwyr

nus wales national union of students

nus scotland national union of students

## Strategaeth ymgyrchu:

Ymgyrch hirdymor yw hon dros newid addysgol. Er mwyn trawsnewid addysg yn radical, mae angen i ni greu pwysau cyhoeddus eithafol - digon i ysgogi'r prif bleidiau gwleidyddol i wneud ymrwymiad ac ennill etholiad cyffredinol.

Er mwyn creu pwysau cyhoeddus, byddwn yn dangos bod pobl yn teimlo'n gryf ynghylch gwerthoedd addysg gydol oes, wedi'i hariannu, sy'n hygyrch a democrataidd, trwy ehangu ein sylfaen o ymgyrchwyr gweithredol a'u grymuso i symud y naratif yn eu cymunedau.


Os yw 3.5% o'r boblogaeth wedi ymrwymo i syniad, dyna sylfaen i fudiad: Os yw 25% o'r boblogaeth yn cefnogi syniad ac yn eiriol drosto, mae'n sylfaen ar gyfer creu norm cymdeithasol newydd. Dyma'r cyfrifiadau sy'n gyrru ein mudiad i drawsnewid addysg.

## Tactegau

1. **Newid addysg nawr**
   Byddwn yn bachu cyfleoedd i wneud newid sylweddol i fywydau myfyrwyr heddiw.

2. **Adeiladu mudiad**
   Trwy fynd ati i drefnu byddwn yn symbylu mudiad y myfyrwyr o amgylch gweithred ledled y DU yn 2022. Bydd y gweithredu hwn yn cynnig canolbwynt, a man cychwyn ar gyfer gweithredoedd yn y dyfodol.

3. **Newid y naratif**
   Byddwn yn cyfleu ein gwerthoedd a'n negeseuon yn y ffordd fwyaf effeithiol ac yn diffinio'r weledigaeth yr ydym am i bobl ei chefnogi. Byddwn yn rhyddhau offer ar gyfer ymgyrchwyr yn lleol. A byddwn yn mesur y newid sydd wedi'i greu.



# Dadwladychu Addysg

## Beth yw'r sefyllfa?

Gall dadwladychu addysg olygu llawer o bethau. Nid yw'n gyfystyr â chydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant (EDI). Mae sgyrsiau EDI yn y brif ffrwd ynghylch hiliaeth wedi dod â rhai newidiadau cadarnhaol, megis Deddf Cydraddoldeb 2010 a chynrychiolaeth gynyddol o bobl CALlE mewn arweinyddiaeth. Ond mae'r dull hwn hefyd wedi cyfyngu ar gynnydd, oherwydd ei fod yn canolbwyntio ar symptomau hiliaeth yn hytrach na'r hyn sydd wrth ei wraidd.

Canolbwyntiodd blwyddyn gyntaf yr ymgyrch hon ar adeiladu dealltwriaeth gywir o ddadwladychu, hiliaeth a'r angen am ailstrwythuro pŵer yn gyfangwbl.

Gwybodaeth yw'r sylfaen ar gyfer gweithredu. Ac eleni byddwn yn gweithio gydag UMau ac ymgyrchwyr i dorri cysylltiadau addysg â chwmnïau preifat sy'n gyfrifol am gynnal gwladychiaeth ac imperialaeth heddiw, gan gynnwys diwydiannau tanwydd ffosil, masnach arfau, gweithgareddau gwarchod ffiniau a mwy. Ni ddylai addysg fodoli i wneud elw. Ac ni ddylai fod yn cyfrannu at lifogydd, sychder, afiechydon cynyddol, gwrthdaro a rhyfel ledled y byd.

## Amcan SMART

**Erbyn Gorffennaf 2022 byddwn wedi ymgysylltu 50k o bobl mewn ymgyrchoedd dadfuddsoddi lleol a chenedlaethol ar draws 50 campws.**

### Targedau

- Ymgysylltu 50k o gefnogwyr a 50 o UMau
- Mesur cynnydd mewn dadfuddsoddi
- Mesur cynnydd mewn sefydliadau'n ailddosbarthu adnoddau ar gyfer gwaith ar ddadwladychu

## "Ni fydd offer y meistr byth yn datgymalu tŷ'r meistr"

**Audre Lorde**




## Strategaeth ymgyrchu:

Eisoes mae yna lawer o ymgyrchoedd a mudiadau sefydledig yn weithredol ym maes dadfuddsoddi. Ein strategaeth yw dilyn dull partneriaeth i'n cryfhau ni i gyd a chyflawni nodau a rennir.

Mae UCM mewn sefyllfa unigryw i brif-ffrydio dadfuddsoddi o fewn addysg trwy gefnogi UMau i weithredu, tyfu ymgyrchoedd lleol hunangynhaliol, ac ymhelaethu ar ein negeseuon trwy'r cyfryngau cymdeithasol a'r wasg brif-ffrwd.

Yn fyr, dylai ddod yn norm derbyniol na ddylai £££ addysg y DU fod yn gysylltiedig â gwladychiaeth ac imperialaeth.

## Tactegau

1. **Adeiladu sylfaen wybodaeth**
   Adeiladu ar ein hymgyrch addysg wleidyddol yn 20-21 ac ychwanegu adnoddau newydd i'r Llyfrgell Ddadwladychu ar ddadfuddsoddi.

2. **Dadfuddsoddi ar draws prif ffrwd addysg**
   Manteisio ar gyfleoedd i dynnu sylw at y difrod a achosir gan ddiwydiannau a sut mae addysg y DU yn hybu hyn.

3. **Grymuso UMau i weithredu**
   Cynyddu gwybodaeth UMau ynghylch cysylltiadau buddsoddi eu sefydliadau eu hunain. Adeiladu capasiti ymgyrchu UMau ac ymgyrchwyr ar y mater hwn i ddod yn hunangynhaliol.

**Cynhelir yr ymgyrch hon yn:**

nus national union of students

nus usi Northern Ireland

ucm cymru undeb cenedlaethol y myfyrwyr
nus wales national union of students

nus scotland national union of students



2il Lawr Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL
ffôn 02920 435 390
e-bost office@nus-wales.org.uk
**www.nus.org.uk/wales**

ucm cymru
undeb cenedlaethol y **myfyrwyr**